CYMDEITHAS ERYRI

ADRODDIAD A CHYFRIFON

Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 30 MEHEFIN 2021

Rhif Elusen Cofrestredig: 1155401

MYNEGAI I'R CYFRIFON

	Tudalen
Adolygiad y Cadeirydd o'r flwyddyn yn diweddu 30 Mehefin 2021	2-5
Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr	6-9
Adroddiad Archwilwyr Annibynnol	10
Datganiad o Weithgareddau Ariannol	11
Mantolen	12
Nodiadau'n ffurfio rhan o'r cyfrifon	13-19

Cymdeithas Eryri
Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol
Y flwyddyn yn diweddu 30 Mehefin 2021

ADOLYGIAD O'R FLWYDDYN GAN Y CADEIRYDD

Yr adeg yma y llynedd roeddem wedi dod drwy gyfnod clo cyntaf y Covid ac yn ceisio dyfalu sut fyddai'r 'normal newydd' i bawb sy'n ymweld â'r Parc Cenedlaethol, neu'n byw ac yn gweithio yma. Wedi'r cyfnodau clo mae bywyd cymunedau'n ail-ffurfio ac, er gwaethaf y cyfyngiadau, bu'r flwyddyn yn diweddu Mehefin 2021 yn gyfnod rhyfeddol o brysur a llwyddiannus i'r Gymdeithas

Mae ein staff hyblyg wedi bod yn defnyddio eu cartrefi fel swyddfa gydol y flwyddyn gan fod ein defnydd o'r swyddfa yn y Caban yn gyfyngedig oherwydd y rhagofalon priodol mewn grym. Cawsom un newid yn ein staff yn ystod y flwyddyn – penodwyd Owen Davies yn Swyddog Project.

Lansiwyd Cynllun Eryri, cynllun newydd sbon i Eryri, ym mis Tachwedd 2020. Mae'n amlinellu'n fanwl sut fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol (APCE) a'i bartneriaid yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Eryri ac yn cydweithio i warchod y Parc Cenedlaethol a'r pethau sy'n ei wneud yn unigryw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn dilyn cyfnod dwys o gymryd rhan yn natblygiad y cynllun, rhoddodd ein Cyfarwyddwr groeso i'r dull newydd ac agored o gydweithio a dywedodd bod y Gymdeithas yn edrych ymlaen at chwarae ein rhan gyda gwireddu'r Cynllun, yn enwedig trwy gyfrwng ein rhaglenni gwirfoddoli a hyfforddiant gyda phobl ifanc.

Gyda'n partneriaid yn APCE, Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Bartneriaeth Awyr Agored, lluniwyd gennym ymateb i bwysau dwys gan ymwelwyr wrth i'r Parc ail-agor ym mis Gorffennaf 2020. Gosododd y gwaith hwn sail i waith mwy cydweithredol, gan arwain at ariannu gan Lywodraeth Cymru i sefydlu rhaglen fwy ar gyfer tymor ymwelwyr 2021. Gyda'n gilydd buddsoddwyd mewn recriwtio, rheoli, darparu offer, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr yn y cynllun Caru Eryri a fu ar waith o fis Ebrill 2021 hyd ddiwedd y tymor. Drwy gyfrwng y rhaglen hon, mae timau o wirfoddolwyr yn ymweld â'r ardaloedd mwyaf poblogaidd ar o leiaf dri diwrnod pob wythnos, gan ddarparu gwybodaeth ac arweiniad i ymwelwyr a chlirio sbwriel o leoliadau hardd.

Wrth i'r cyfyngiadau lacio yn gynnar yn 2021 ail-gychwynnwyd ein rhaglen ehangach o ddigwyddiadau a gweithgareddau i wirfoddolwyr. Gosodwyd gwaith ychwanegol ar ysgwyddau staff o ganlyniad i'n hymrwymiad i'r rhaglen Caru Eryri, ond erbyn diwedd Mehefin 2021 roedd ein gwaith ymarferol a chynhwysol yn ei anterth unwaith eto.

Yn rhifyn gwanwyn 2021 y cylchgrawn adroddwyd ar ganlyniadau arolwg ar ffurf holiadur o farn aelodau'r Gymdeithas. Roedd yr ymateb yn amrywiol ac yn destun trafodaeth, ond roedd yn amlwg bod blaenoriaeth gan yr aelodau i'n gwaith eiriol a chadwraeth ymarferol. Cyn bwysiced roedd cefnogaeth aelodau i'n gwaith addysgiadol a rhaglenni hyfforddiant sydd â'r nod o ddatblygu medrau a hyder pobl ifanc Eryri a fydd yn ei gwarchod yn y dyfodol. Yn y cyfnod clo, cafodd ein staff gyfle i ddatblygu eu gallu i wireddu'r holl flaenoriaethau yma wrth i'r cyfyngiadau lacio.

Mae gwaith polisi y Gymdeithas wedi bod yn brysur ac yn amrywiol. Araf fu'r cynnydd gan Lywodraeth Cymru ar sefydlu'r Bartneriaeth Tirlun Dynodedig Cenedlaethol; mae gennym rôl i atgoffa'r llywodraeth o'r ymrwymiadau a wnaed ganddo i sicrhau digon o adnoddau ar gyfer tirluniau dynodedig.

Ym mis Ionawr 2021 ymatebodd y Gymdeithas i strategaeth drafnidiaeth ddrafft newydd Llywodraeth Cymru. Ym mis Chwefror cyhoeddwyd *Dyfodol Cymru: y Cynllun Cenedlaethol hyd 2040*, sy'n ffurfio haen uchaf y cynllun datblygu ar gyfer Cymru gyfan yn cynnwys Eryri. Drwy lobïo drwy gyfrwng y Gynghrair dros Dirluniau Dynodedig Cymru gallwn hawlio rhywfaint o'r clod am gydnabyddiaeth yn fersiwn derfynol o bwysigrwydd Parciau Cenedlaethol a rôl Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r Cynllun yn cynnwys cefnogaeth mewn egwyddor am 'adweithydd niwcliar modiwlaidd bach' ar safle cyn-orsaf bŵer Magnox yn Nhrawsfynydd. Dydy'r cynnig hwn ddim wedi ei ddiffinio'n bendant hyd yma ac ni chynhaliwyd asesiad amgylcheddol; bydd angen i ni gadw llygad barcud.

Ym mis Mawrth 2021 ymatebodd y Gymdeithas, ynghyd â llawer o'n cyrff-bartneriaid, i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Mesur Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru). Bydd sefydlu system newydd o gefnogaeth amaethyddol wedi Brexit i greu system deg ac ymarferol o daliadau i ffermwyr am gynhyrchu 'nwyddau cyhoeddus' yn hanfodol er mwyn gwarchod rhinweddau arbennig Eryri a chynnal bywoliaethau yn y gymuned ffermio yma.

Buom yn cydweithio gyda'n partneriaid i geisio dylanwadu ar faniffesto pob un o'r prif bleidiau gwleidyddol yn y cyfnod hyd etholiadau'r Senedd ym mis Mai. Ar ddydd Mercher 30 Mehefin datganodd y Senedd Argyfwng Byd Natur gan alw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno gofyniad sy'n gyfreithiol ofynnol i wrthdroi colled bioamrywiaeth drwy dargedau statudol. Fel erioed, y manylion fydd yn bwysig a bydd llwyddiant yn ddibynnol ar ariannu digonol, ond roedd hwn yn gam I'r cyfeiriad cywir. Roeddem yn falch o glywed Mabon ap Gwynfor, Aelod y Senedd dros Ddwyfor Meirionnydd, yn cyfeirio at ein gwaith yn ei gyfraniad i'r ddadl:

> *"Y rheswm dwi'n crybwyll Cymdeithas Eryri yn benodol yw i ddangos bod y gweithrediadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd i ddiogelu byd natur a bioamrywiaeth yn ddibynnol ar unigolion ac elusennau bach a mawr ar lefel leol a chenedlaethol. Mae miloedd o wirfoddolwyr eraill yn cyflawni gwaith tebyg i gyrff eraill hefyd, wrth gwrs. Ond allwn ni ddim dibynnu ar wirfoddolwyr. Mae angen arweiniad cenedlaethol arnyn nhw a'r elusennau a'r cyrff sy'n gweithio yn yr ardal hon, megis Cymdeithas Eryri, a'u dymuniad yw bod y Llywodraeth yn gweithredu hefyd."*

Mae'r cynnig a basiwyd yn y Senedd hefyd yn cyfarwyddo Llywodraeth Cymru i ddeddfwriaethu i gau'r bwlch mewn rheolaeth amgylcheddol. Yn dilyn Brexit, does gan Cymru ddim mecanwaith sy'n galluogi i gorff neu unigolyn herio corff cyhoeddus sy'n methu â gwireddu ei ddyletswyddau amgylcheddol. Ar faterion fel hyn, mae ein Cyfarwyddwr yn cydweithio'n agos gyda phartneriaid yng Nghyswllt Amgylchedd Cymru, Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, a'r Gynghrair dros Dirluniau Dynodedig Cymru.

Mae ein Cyfarwyddwr wedi parhau i gadeirio Partneriaeth yr Wyddfa, y cynllun sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau rheolaeth yn ein mynyddoedd mwyaf garw a phoblogaidd. Yr orchwyl fwyaf oedd llywio rhaglen waith i wireddu trafnidiaeth gynaliadwy tymor hir a pharcio yn yr ardal hon sydd bellach yn llawn cerbydau, ac i erfyn ar yr awdurdodau trafnidiaeth i gynllunio'n hyderus a chydweithio'n effeithiol ar weithredu. Ymysg projectau eraill sy'n datblygu o'r bartneriaeth fywiog hon mae astudiaeth ddichonoldeb ar ddatblygu statws 'mynydd di-blastig' i'r Wyddfa.

Ym mis Gorffennaf 2020 ymatebodd y Gymdeithas i ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i reolaeth gofod awyr o amgylch maes awyr Llanbedr, bellach yn rhan o 'Barth Mentr Eryri'

Llywodraeth Cymru. Adroddwyd ar ein pryder am brofi cerbydau awyr arbrofol yn niweidio tawelwch y Rhinogydd yng nghylchgrawn y gwanwyn. Hyd yma, dydyn ni ddim wedi clywed a fydd y cynigion gwreiddiol yn cael eu haddasu cyn cael eu hanfon i'r Awdurdod Hedfan Sifil.

Bellach mae ansicrwydd o'r newydd a fydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ariannu adeiladu ffordd osgoi sy'n amgylcheddol niweidiol yn Llanbedr, yn enwedig ar ôl clywed y moratoriwm a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar greu ffyrdd newydd. Hyd yma, dydy Cyngor Gwynedd ddim wedi cysylltu gyda'r ymgynghorwyr, yn cynnwys y Gymdeithas. ar baratoi achos busnes y bydd y penderfyniad ariannu terfynol yn dibynnu arno.

Mae ein Cyfarwyddwr yn parhau i gadw llygad ar geisiadau cynllunio newydd ac ymgynghoriadau lleol eraill. Fe wnaethon ni wrthwynebu cynnig yn Nyffryn Ardudwy i osod gofod carafánau teithiol yn lle gofod gwersylla ac roeddem yn falch pan gafodd ei wrthod. Gwrthwynebwyd hefyd gynnig am adnodd prosesu cyrff anifeiliaid mewn lleoliad amhriodol ger Llanbedr, a gwrthodwyd hwn hefyd. Fodd bynnag, newidiwyd y penderfyniad ar apêl gan yr Archwilwyr Cynllunio ac mae hwn bellach wedi derbyn caniatâd cynllunio. Rydym yn aros am ganlyniad ein gwrthwynebiad i gais gan Pumped Hydro Eryri i ganiatáu cyfnod hirach i'r cwmni gychwyn ar ei ddatblygiad sy'n niweidiol i'r amgylchedd ger Glyn Rhonwy ger Llanberis.

Ymysg ymgynghoriadau eraill roedd cynllun ariannu Ofgem i leihau effaith weledol llinellau peilon, polisi ar gyfer rheoli mawnogydd a chynigion lledu ffordd i wneud yr A477 yn fwy diogel wrth iddi fynd heibio Cadair Idris.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ymgynghori ar gynlluniau rheolaeth ar gyfer coedwigaeth ar dir cyhoeddus yn y Parc Cenedlaethol. Ymatebwyd i dri ymgynghoriad o'r fath yn ystod y flwyddyn, gan amlygu ymysg materion eraill ein pryder am hadu ymledol conifferau anfrodorol i gynefinoedd agored oddi allan i ffiniau planhigfeydd, ond hefyd ein parodrwydd i helpu gyda gwaith gwirfoddol lle all y Gymdeithas gyfrannu at reolaeth gwell cynefin neu brofiad ymwelwyr.

Mae Cynllun Gweithredu'r Gymdeithas wedi ei adolygu a'i roi ar waith am flwyddyn arall. Mae ar gael ar wefan y Gymdeithas ac mae'n amlinellu i aelodau hyd a lled gweithrediadau ac adnoddau presennol y Gymdeithas.

Cyn bo hir bydd grŵp gorchwyl bach o staff ac ymddiriedolwyr yn dechrau ar y gwaith o ystyried opsiynau am ddyfodol Tŷ Hyll, a sut all yr ased eiconig hwn gyfrannu i wireddu pwrpasau elusennol y Gymdeithas. Bydd aelodau'r Gymdeithas yn cael cyfle i wneud sylwadau ar hyn y flwyddyn nesaf.

Gan droi at drefn lywodraethol y Gymdeithas, penodwyd pedwar ymddiriedolwr newydd yng Nghyfarfod Blynyddol 2020 ac maen nhw i gyd eisoes wedi gwneud cyfraniadau sylweddol i fwrw golwg o'r newydd ar farn a gwaith y Gymdeithas. Bydd Sue Beaumont hefyd yn cael ei phenodi fel ymddiriedolwr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol (BYC). Dymunwn yn dda iddi yn y rôl bwysig hon, sy'n cynnwys ceisio sicrhau bod y materion sy'n wynebu parciau cenedlaethol yng Nghymru'n cael lle blaenllaw yng ngwaith ymgyrchu y Cyngor dros Barciau Cenedlaethol.

Yn drist iawn, byddwch yn gwybod o deyrnged yng nghylchgrawn yr hydref bod Dr Morag McGrath, cyn-ymddiriedolwr mawr ei pharch ac is-lywydd a oedd yn weithgar dros y Gymdeithas, wedi marw ym mis Gorffennaf.

Fel yr adroddwyd isod, mae cyllid y Gymdeithas yn parhau'n eithaf cadarn. Dyma'r sefyllfa yn bennaf o ganlyniad i lwyddiant ein staff wrth sicrhau cymorthdaliadau a benthyciadau gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gefnogi ein gwaith yng nghyd-destun y pandemig a'n helpu i ddangos cryfder wrth wynebu'r dyfodol.

Mae aelodaeth y Gymdeithas wedi parhau'n gyson yn y flwyddyn hyd at 30 Mehefin 2021, er gwaethaf y cwtogi ar gymaint o'r gwaith o ymgysylltu â'r gymdeithas a digwyddiadau lle mae ein staff, mewn blwyddyn arferol, yn gweithio'n egnïol i recriwtio aelodau newydd.

Rydym yn obeithiol y bydd y flwyddyn i ddod yn cynnwys rhaglen lawn o ddigwyddiadau a chyfleoedd i wirfoddoli a hyfforddi. Rydw i'n gwybod y bydd ein staff yn gwneud eu gorau glas i barhau â'n gweithgareddau wrth ddilyn y cyfyngiadau newidiol a chadw eu hunain a'n gwirfoddolwyr yn ddiogel. Felly, rydw i'n obeithiol y bydd y flwyddyn i ddod yn un i edrych yn ôl arni gyda balchder – mae gennym dîm medrus a'r adnoddau i ryddhau eu hegni a'u hymrwymiad er mwyn gwneud gwahaniaeth.

Bydd Cymdeithas Eryri yn cynnal cynhadledd flynyddol cymdeithasau y parciau cenedlaethol yn hydref 2022. Bydd hon yn gyfle i amlygu gwaith y Gymdeithas a'n partneriaid, yn ogystal â dysgu o brofiadau a lwyddiannau parciau cenedlaethol eraill. Mae'r gwaith cynllunio eisoes ar y gweill.

Dr. Pitt.

Julian Pitt
Cadeirydd, Cymdeithas Eryri

ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YMDDIRIEDOLWYR

y Gymdeithas
Ffurfiwyd a chofrestrwyd y Gymdeithas fel elusen am y tro cyntaf ym 1967. Ym mis Ionawr 2014 fe'i hail-gofrestrwyd gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif cofrestredig 1144401) fel Corff Ymgorfforedig Elusennol (CYE). Ei chyfansoddiad yw dogfen reoli trefn lywodraethol y Gymdeithas. Adolygwyd hwn am y tro diwethaf ym mis Rhagfyr 2013 ac mae o ar gael ar wefan y Gymdeithas.

Amcan Elusennol y Gymdeithas
Nod y CYE yw *gwarchod a gwella harddwch a rhinweddau arbennig Eryri a hyrwyddo eu mwynhad er budd pawb sy'n byw yn yr ardal, yn gweithio yma neu'n ymweld â hi, nawr ac yn y dyfodol.* Mae ein gweithgareddau'n digwydd ledled Parc Cenedlaethol Eryri ond mae'n bosib iddyn nhw ymestyn y tu hwnt i'w derfynau ar faterion yn ymwneud â'r Gymdeithas.

Rheolaeth y Gymdeithas
Y prif gorff sy'n gwneud penderfyniadau o fewn y Gymdeithas yw'r Pwyllgor Gwaith. Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yw'r Ymddiriedolwyr yn unol â chyfraith elusennol. Rheolir apwyntiad y swyddogion ac aelodau o'r Pwyllgor Gwaith gan gyfansoddiad y Gymdeithas. Mae gan swyddogion a staff awdurdod wedi ei dirprwyo i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd yn unol â pholisi a gytunwyd ac i wario arian o fewn cyfyngiadau a benodir gan y Pwyllgor Gwaith.

Swyddogion ac Ymddiriedolwyr ar 30 Mehefin 2021

Llywydd	Roger Thomas
Is-lywyddion	Huw Morgan Daniel CVO KStJ, David Firth, Syr Simon Jenkins FSA
Cadeirydd	Julian Pitt
Is-gadeirydd	Gwag
Ymddiriedolwyr eraill	David Archer, Sue Beaumont, Richard Brunstrom, Dr Jacob Buis, Bob Lowe, Denis McAteer, Richard Neale, Jane Parry-Evans, Mathew Teasdale.

Staff, 30 Mehefin 2021

Cyfarwyddwr	John Harold
Swyddog Aelodaeth a Chyfathrebu	Debbie Pritchard
Swyddog Ymgysylltu	Claire Holmes
Rheolwr Project	Mary-Kate Jones
Swyddog Cadwraeth	Mary Williams
Swyddog Cadwraeth	Daniel Goodwin
Cyfrifydd	Judith Bellis
Swyddog Project	Owen Davies
Bancwyr	HSBC Llandudno
Archwiliwr Annibynnol	Bennett Brooks, Llandudno

Newidiadau o ran Swyddogion ac Ymddiriedolwyr
Yn y CBC ym mis Hydref 2020 etholwyd Richard Brunstrom, Denis McAteer, Richard Neale a Mathew Teasdale fel ymddiriedolwyr.

Datganiad o Fudd Cyhoeddus
Wrth baratoi'r Datganiad hwn o Fudd Cyhoeddus mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried arweiniad y Comisiwn Elusennau. Mae 'rhinweddau arbennig' Eryri – yr un ardal mwy neu lai â Pharc Cenedlaethol Eryri – yn cael eu hadnabod yng nghynlluniau Awdurdod y Parc. Mae gwarchod a gwella'r rhinweddau hyn, a hyrwyddo eu mwynhad, yn cael eu cydnabod fel amcan elusennol ac yn cael eu hystyried fel gwireddu budd i'r cyhoedd. Mae'r Gymdeithas yn bodoli i ateb ei hamcan elusennol, uchod, ac felly yn darparu budd amlwg i'r cyhoedd. Adlewyrchir ystod ein gweithgareddau elusennol er budd y cyhoedd yng Nghynllun Gweithredu'r Gymdeithas, sydd ar gael ar ein gwefan, ac mae enghreifftiau o'n gweithgareddau elusennol yn cael eu nodi bob blwyddyn yn adolygiad y Cadeirydd o'r flwyddyn, uchod. Mae'r Ymddiriedolwyr felly yn ystyried eu bod yn cydymffurfio gyda'r dyletswydd yn adran 4 o Ddeddf Elusennau 2006 i wir ystyried arweiniad ar fudd cyhoeddus a gyhoeddir gan y Comisiwn.

Adroddiad Ariannol
Cychwynnwyd ar ein blwyddyn ariannol gyda chryn bryder ynglŷn â sut y byddai pandemig Covid-19 yn effeithio ar ein gwaith a'n sefyllfa ariannol. Roeddem yn bryderus y byddai incwm o danysgrifiadau a rhoddion yn lleihau, ond yn gyffredinol nid felly y bu. Mae incwm o danysgrifiadau aelodau'n uwch, gan adlewyrchu'r flwyddyn ariannol gyntaf ar y raddfa danysgrifio uwch. Mae rhoddion yn uwch o ganlyniad i rodd unigolyn hynod o hael a'r ymateb ardderchog gan aelodau a chefnogwyr i'r apêl 'Big Give' cyfatebol ym mis Ebrill 2021. Derbyniwyd cofrodd y'i gwerthfawrogwyd yn fawr o £15,000. Cawsom rhai costau staff yn ôl o gynllun rhyddhad (*furlough*) y llywodraeth pan oedd cyfyngiadau yn rhwystro gweithgareddau arferol rhag digwydd. Yn anochel, bu'n rhaid canslo digwyddiadau yn ystod y cyfnodau clo ac mae'r cyfyngiadau cysylltiedig wedi golygu bod incwm o'r ffynonellau hyn wedi cwympo, ond rydym wedi cael blwyddyn lwyddiannus o ran sicrhau ariannu gan grantiau i gefnogi ac ehangu ein gwaith.

Fel y partner arweiniol yn y cynllun 'Caru Eryri' derbyniwyd grant o £86,733, ac roedd yn rhaid ei wario mewn llai na dau fis. Mae rhywfaint o'r ariannu arall a dderbyniwyd gennym yn gyfyngedig, fel nad oes modd ei wario ar ddim byd heblaw gwaith cadwraeth ymarferol, ond hyd yn oed ar ôl ystyried y cynnydd mewn gwerth ein cronfeydd cyfyngedig, rydym yn dangos arian dros ben ar gyfer gweithredu.

Mae ein portffolio buddsoddi wedi perfformio yn dda ac adferwyd colledion y flwyddyn gynt. Mae hyn wedi cyfrannu at gynnydd yng nghyfanswm gwerth ein cronfeydd sy'n dod i £145,643. Gydag aelod ychwanegol o staff, rydym yn obeithiol bod gennym adnoddau digonol a fydd yn ein galluogi i barhau â'n gwaith gan fod pwysigrwydd hyn yn derbyn mwy o gydnabyddiaeth.

Polisi Arian Wrth Gefn
Polisi'r Gymdeithas yw cynnal Arian Wrth Gefn Tymor Byr digonol i ateb gwariant arferol dros gyfnod o 4-6 mis mewn cyfrifon sy'n hawdd cael gafael arnyn nhw. Mae arian arall wrth gefn (Arian Wrth Gefn Tymor Hir) yn cael ei fuddsoddi ar ran y Gymdeithas gan reolwyr buddsoddi (Rathbones) i gynhyrchu'r llog gorau o fewn lefel dderbyniol o risg ac yn unol â'n cyfarwyddiadau ar fuddsoddiad ethegol.

Mae angen Arian Wrth Gefn Tymor Hir (AWGTH) ar y Gymdeithas er mwyn iddi allu:

- ateb costau ymgyrchoedd newydd neu gyfleoedd pwysig eraill a all godi;

- gwarchod yn erbyn argyfyngau na ellir eu rhagweld, incwm sy'n amrywio a gwariant angenrheidiol annisgwyl, er mwyn darparu sail sefydlog ar gyfer gwireddu amcanion y Gymdeithas;
- darparu cyfalaf gweithio pan delir arian ar sail ôl-ddyledaeth;
- caffael daliadau eiddo newydd, pe bai cyfleoedd priodol yn codi yn unol ag amcanion y Gymdeithas;
- ateb oblygiadau cytundebol pe bai'r elusen yn gorfod cau.

Ar hyn o bryd mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried bod cynnal AWGTH sy'n cyfateb i wariant y ddwy flynedd ddiwethaf yn ddoeth er mwyn sicrhau bod y Gymdeithas yn gallu parhau â'i gweithgareddau. Yn 2021/22 mae hyn yn cyfateb i AWGTH o £448, 471 o leiaf. Uwchben y ffigur AWGTH hwn, efallai y bydd yr AWGTH ar gael ar gyfer ateb anghenion ehangach yr elusen ym mha bynnag ddull y mae'r Ymddiriedolwyr yn ei benderfynu ar y pryd.

Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu'n barhaus a ydy'r AWGTH wedi ei osod ar lefel briodol ac hefyd a ddylid sefydlu unrhyw gronfeydd dynodedig o fewn yr AWGTH, pe bai hwn yn codi'n sylweddol uwch na throsiant dwy flynedd.

Polisi Buddsoddi
Mae Polisi Buddsoddi Ysgrifenedig y Gymdeithas, sy'n trafod cronfeydd wrth gefn, buddsoddi a rheoli risg, ar gael o'r swyddfa ar gais. Amcan buddsoddiad y portffolio Arian Wrth Gefn Tymor Hir yw cynhyrchu adenillion sy'n gydbwysedd rhwng incwm a thwf cyfalaf, wrth ddefnyddio lefel cymedrol o risg a chynhyrchu adenillion sydd o leiaf yn uwch na chwyddiant dros y tymor hir. Cedwir yr Arian Wrth Gefn Tymor Byr (AWGTB) mewn cyfrifon cyfredol sy'n cynhyrchu y swm lleiaf o elw ond sy'n ceisio cynnal gwerthoedd cyfalaf.

Polisi Rheoli Risg
Yn y blynyddoedd diwethaf, nodwyd mai'r prif risg i sefydlogrwydd tymor hir y Gymdeithas, o dan amgylchiadau arferol, yw effaith chwyddiant ar yr arian wrth gefn. Rheolir y buddsoddiadau gyda'r nod o leihau'r risg hwn. Mae'r ymddiriedolwyr wedi penderfynu casglu ynghyd Gofrestr Risg yn ystod 2021/22.

Buddsoddiad Ethegol
Gydag apwyntiad rheolwyr buddsoddi sydd â phrofiad o weithio gydag elusennau, darparwyd cyfle i adolygu polisi'r Gymdeithas ar fuddsoddiad ethegol. Mae polisi newydd ar y mater hwn bellach yn cael ei gynnwys ym Mholisi Buddsoddi Ysgrifenedig llawn y Gymdeithas. Mae hwn yn cyfarwyddo rheolwr portffolio buddsoddi'r Gymdeithas, Rathbones i weithredu 'sgrinio negyddol' a pheidio â buddsoddi mewn cwmnïau sy'n cymryd rhan mewn: Ecsbloetio Anifeiliaid, Materion yn Hawliau Dynol, Materion Rheolaeth Amgylcheddol Agrogemegau, Mwyngloddio ac Ecsbloetio Cynefin. Hefyd, mae'r Ymddiriedolwyr wedi hysbysu Rathbones o'u dymuniad am 'sgrinio positif', hynny ydy, i gynyddu'r ganran o fuddsoddiadau yn y dyfodol mewn cwmnïau gyda buddion amgylcheddol ac ethegol positif eraill. Bydd Ymddiriedolwyr yn parhau i adolygu gweithredu'r polisi hwn gan Rathbones ac a fydd yn bosib gwella'r polisi newydd.

Adroddiad Buddsoddiadau/Perfformiad
Ar gychwyn y pandemig, fel gyda buddsoddiadau'n gyffredinol, effeithiwyd yn negyddol a difrifol ar ein portffolio buddsoddi. Fodd bynnag, cafwyd adferiad cyffredinol yn ei werth erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hyd at fis Mehefin 2021. Fodd bynnag, mae effaith y pandemig, ynghyd ag

ansicrwydd gwleidyddol yma'n y DU a ledled y byd, yn golygu bod y portffolio'n parhau yn fregus i newidiadau sylweddol.

Mae Rathbones yn cynhyrchu gwerthusiadau pob tri mis o bortffolio buddsoddi'r Gymdeithas, sy'n cynnwys adroddiadau ar newidiadau yn y rhagolygon economaidd yn fyd-eang ac yn y DU. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cydweithio'n agos gyda Rathbones ynglŷn â rheolaeth y portffolio.

Cyfrifoldeb Ymddiriedolwyr

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol bob blwyddyn sy'n rhoi cyfrif gwir a chlir o weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ei diwedd. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr ddewis polisïau cyfrifo priodol a'u gweithredu'n gyson, ac i ddilyn safonau cyfrifo perthnasol, gan egluro unrhyw wyriad. Mae'n ofynnol iddyn nhw wneud dyfarniadau rhesymol a gofalus yn y materion hyn, i gadw cofnodion cyfrifo sy'n datgelu'n fanwl gywir ar unrhyw adeg safle ariannol y Gymdeithas, ac i gydymffurfio gyda chyfraith elusennol a gofynion cyfreithiol eraill. Maen nhw'n gyfrifol am warchod asedau'r Gymdeithas a chymryd camau rhesymol i rwystro a chanfod twyll.

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â'r polisïau cyfrifo a amlinellir yn y nodiadau i'r cyfrifon ac maen nhw'n cydymffurfio gyda chyfansoddiad yr elusen, Deddf Elusennau 2011 a Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer a Gymeradwywyd ('SORP') sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon ac a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol drafft gan y Pwyllgor Gwaith ar 23 Awst 2021 ac fe'u cymeradwywyd yn ffurfiol gan yr Archwilydd Annibynnol, y gwelir ei adroddiad dros y dudalen.

Julian Pitt (Cadeirydd) Dyddiad: 2 Medi 2021

Judith Bellis (Cyfrifydd) Dyddiad: 2 Medi 2021

INDEPENDENT EXAMINER'S REPORT TO THE TRUSTEES OF THE SNOWDONIA SOCIETY - CYMDEITHAS ERYRI

I report to the trustees on my examination of the accounts of the Trust for the year ended 30 June 2021, which are set out on pages 11 to 19.

Respective responsibilities of trustees and examiner

The charity's trustees are responsible for the preparation of the accounts. The charity's trustees consider that an audit is not required for this year under section 144 of the Charities Act 2011 (the Charities Act) and that an independent examination is needed. The charity's gross income exceeded £250,000 and I am qualified to undertake the examination by being a qualified member of the ICAEW.

It is my responsibility to:

- examine the accounts under section 145 of the Charities Act;
- to follow the procedures laid down in the General Directions given by the Charity Commission under section 145(5)(b) of the Charities Act; and
- to state whether particular matters have come to my attention.

Basis of independent examiner's report

My examination was carried out in accordance with the General Directions given by the Charity Commission. An examination includes a review of the accounting records kept by the charity and a comparison of the accounts presented with those records. It also includes consideration of any unusual items or disclosures in the accounts, and the seeking explanations from you as trustees concerning any such matters. The procedures undertaken do not provide all the evidence that would be required in an audit, and consequently no opinion is given as to whether the accounts give a 'true and fair view' and the report is limited to those matters set out in the statement below.

Independent examiner's statement

In connection with my examination, no material matters have come to my attention which gives me cause to believe that in, any material respect:

- the accounting records were not kept in accordance with section 130 of the Charities Act; or
- the accounts did not accord with the accounting records; or
- the accounts did not comply with the applicable requirements concerning the form and content of accounts set out in the Charities (Accounts and Reports) Regulations 2008 other than any requirement that the accounts give a 'true and fair' view which is not a matter considered as part of an independent examinations.

I have no concerns and have come across no other matters in connection with the examination to which attention should be drawn in this report to enable a proper understanding of the accounts to be reached.

..... 2/9/2021.

Relevant professional qualification or body: FCA

Address: Bennett Brooks & Co Limited
19 Trinity Square
Llandudno
LL30 2RD

CYMDEITHAS ERYRI - SNOWDONIA SOCIETY
ACCOUNTS FOR THE YEAR ENDED 30 JUNE 2021

STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES

	Note	Unrestricted funds £	Restricted funds £	Total funds 2021 £	Total funds 2020 (as restated) £
Incoming resources from generated funds:					
Voluntary Income	3	78,468	-	78,468	55,176
Activities for generating funds	4	3,131	5,257	8,388	12,267
Investment income	5	9,346	-	9,346	10,089
Charitable Activities	6	162,956	63,554	226,510	85,319
Total incoming resources (Gross income)		253,901	68,811	322,712	162,851
Resources expended					
Generating voluntary income	7	36,008	-	36,008	34,806
Fundraising trading	8	14,357	5,561	19,918	32,030
Charitable activities	9	184,686	18,657	203,343	122,366
Governance	10	-	-	-	-
Total resources expended		235,051	24,218	259,269	189,202
Net (outgoing)/incoming resources		18,850	44,593	63,443	(26,351)
Transfer between funds	16	500	(500)	-	-
Realised gains/(losses) Investments		4,993	-	4,993	(754)
Net movement in funds after realised (losses)/gains		24,343	44,093	68,436	(27,105)
Unrealised gains/(losses) Investments		77,207	-	77,207	(8,227)
Net movement in funds for year		101,550	44,093	145,643	(35,332)
Total funds at 1 July 2020		452,784	355,005	807,789	843,121
Total funds at 30 June 2021		554,334	399,098	953,432	807,789

The statement of financial activities includes all gains and losses in the year. All incoming resources and resources expended derive from continuing activities.

CYMDEITHAS ERYRI - SNOWDONIA SOCIETY
ACCOUNTS FOR THE YEAR ENDED 30 JUNE 2021

BALANCE SHEET

	Note	Unrestricted Fund 2021	Restricted Fund 2021	Total 2021	2020
		£	£	£	£
Tangible fixed assets					
Equipment	12	5,942	-	5,942	2,179
Heritage Asset	12	-	285,000	285,000	285,000
Investments	13	511,905	-	511,905	443,038
		517,847	285,000	802,847	730,217
Current assets					
Stocks		3,303	-	3,303	3,868
Debtors		1,455	-	1,455	13,301
Cash at bank and in hand		36,151	135,282	171,433	63,999
		40,909	135,282	176,191	81,168
Creditors: amounts falling due within one year					
Creditors and accruals	14	(4,422)	(21,184)	(25,606)	(3,596)
Net current assets/liabilities		36,487	114,098	150,585	77,572
Net assets		554,334	399,098	953,432	807,789
Funds					
Unrestricted funds	15			554,334	452,784
Restricted funds	15			399,098	355,005
Total funds				953,432	807,789

Approved by the Board of Trustees on 2nd September 2021 and signed on its behalf by:

Julian Pitt (Chair)

Jane Parry-Evans (Trustee)

1. **Basis of accounting**

The financial statements have been prepared under the historical cost convention with items recognised at cost or transaction value unless otherwise stated in the relevant notes to these accounts. The financial statements have been prepared in accordance with the Statement of Recommended Practice: Accounting and Reporting by Charities preparing their accounts in accordance with the Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland (FRS 102) issued on 16 July 2014 and the Financial Reporting Standard applicable in the United Kingdom and Republic of Ireland (FRS 102) and the Charities Act 2011.

The charity constitutes a public benefit entity as defined by FRS 102.

2. **Accounting policies**

The principal accounting policies are summarised below. The accounting policies have been applied consistently throughout the year and in the preceding year.

Heritage assets

No depreciation is charged on the Heritage Asset at Ty Hyll since its residual value is considered to be at least equivalent to its revalued amount.

Tangible fixed assets

Equipment is stated at cost less accumulated depreciation. Depreciation is provided to write off the cost less estimated residual value of fixed assets over their expected useful lives. It is calculated on the original cost of the assets at the following rates.

Equipment - 33.33% per annum reducing balance

Investments

Investments are stated at market value as quoted on the UK Stock Exchange. Realised gains or losses from the sale of investments and unrealised gains or losses from revaluing them to current market value are included in the Statement of Financial Activities. They are classified as Fixed Assets. They are necessary for the safeguarding of the Society's activities over the long term.

Stock

Stock is valued at cost or market value, if less, where it is slow-moving.

Voluntary income

Donations are accounted for when received.
Legacies are accounted for when received.
Subscriptions are accounted for when received.
Life subscriptions are credited to income in the year of receipt.
Gift aid is recovered on donations and subscriptions, where applicable.

Charitable Activities - Grants

Credit for revenue grants is taken in the Statement of Financial Activities when the grant is received or where claimed retrospectively when the purpose for which the grant was sought has been met and the grant is calculable.

Cost Allocation

Costs are apportioned between various expenditure headings as necessary in accordance with the best estimates of the Trustees and staff.

Pensions

The Society pays defined contributions into externally managed pension plans for employees who are eligible and have entered into such contracts. Contributions are charged to the Statement of Financial Activities as they fall due.

3. Incoming Resources - Voluntary Income

	Unrestricted	Restricted	2021 Total	2020 Total
	£	£	£	£
Donations	18,197	-	18,197	12,604
Legacies	15,000	-	15,000	5,000
Subscriptions	35,825	-	35,825	29,279
Gift Aid recovered	9,446	-	9,446	8,293
	78,468	-	78,468	55,176

4. Incoming Resources - Activities for Generating Funds

	Unrestricted	Restricted	2021 Total	2020 Total
	£	£	£	£
Sales at Ty Hyll	-	1,686	1,686	2,406
Tea Room Rent	-	3,300	3,300	4,400
Ty Hyll donations	-	271	271	75
Fundraising sales	2,365	-	2,365	2,010
Social Activities	13	-	13	3,375
Other income	753	-	753	1
	3,131	5,257	8,388	12,267

5. Incoming Resources - Investment Income

	Unrestricted	Restricted	2021 Total	2020 Total
	£	£	£	£
Dividends - UK equities	9,338	-	9,338	10,035
Interest - Cash deposits	8	-	8	54
	9,346	-	9,346	10,089

6. Incoming Resources - Charitable Activities

During the year the Society received grants from Welsh Council for Voluntary Action with regard to Third Sector Resilience Fund. In July 2020, they received £48,750 grant. Later in the year the Society received a second grant of £63,554 from the Third Sector Resilience Fund 2.

A further grant of £86,733 was received from Welsh Government, for Covid Volunteering Recovery which was completely spent in the year.

Further grants of £15,131 were received from Snowdonia National Park Authority, £1,264 from Menter Mon and £12,000 from Natural Resources Wales - of these £9,232 related to a debtor at 30 June 2020.

During the year the Society received £8,310 from the Government's Coronavirus Job Retention Scheme (Year ended 30 June 2020 - £9,569).

The total grant income recognised in the SoFA was £226,510, of which £63,554 is restricted.

7. Resources expended - Generating voluntary income (maintenance of membership)

	Unrestricted	Restricted	2021 Total	2020 (as restated) Total
	£	£	£	£
Staff time - as allocated	22,010	-	22,010	21,541
Advertising, Website & Magazine costs	6,002	-	6,002	3,742
Governance & support costs allocated	7,996	-	7,996	9,523
	36,008	-	36,008	34,806

In the year ended 30 June 2021, the costs of the magazine were fully allocated to the maintenance of membership due to the impact of Covid-19 on distribution. In the year ended 30 June 2020, the costs of the magazine have been split 50% to the maintenance of membership and 50% to Charitable activities.

8. Resources expended - Fundraising

	Unrestricted	Restricted	2021 Total	2020 (as restated) Total
	£	£	£	£
Staff time - as allocated	8,967	-	8,967	10,893
Trading & expenses at Ty Hyll	-	5,561	5,561	9,880
Project & event expenses	806	-	806	5,334
Other expenses	1,542	-	1,542	1,158
Governance & support costs allocated	3,042	-	3,042	4,765
	14,357	5,561	19,918	32,030

9. Resources expended - Charitable activities

	Unrestricted	Restricted	2021 Total	2020 (as restated) Total
	£	£	£	£
Staff time - as allocated	90,826	-	90,826	77,292
Projects (including Volunteer Expenses)	35,258	18,657	53,915	6,196
Advertising, Website & Magazine costs	18,252	-	18,252	3,383
Governance & support costs allocated	40,350	-	40,350	35,495
	184,686	18,657	203,343	122,366

10. Resources expended - Governance

	Unrestricted	Restricted	2021 Total	2020 (as restated) Total
	£	£	£	£
Staff time - as allocated	12,595	-	12,595	16,144
Affiliations	1,716	-	1,716	2,136
Bank charges	1,121	-	1,121	1,055
Caban charges (including telephone)	14,810	-	14,810	13,394
Computer software and consumables	5,740	-	5,740	2,154
Independent examiners fee	1,850	-	1,850	1,740
Insurance	1,082	-	1,082	962
Legal & Professional fees	-	-	-	148
Portfolio Management fees	4,466	-	4,466	4,236
Postage, printing and stationery	1,971	-	1,971	2,321
Services - Payroll and translation	2,249	-	2,249	1,125
Training	-	-		-
Travelling	23	-	23	655
Trustees expenses	71	-	71	1,661
Miscellaneous (including AGM expenses)	528	-	528	963
Depreciation	3,166	-	3,166	1,089
Allocated to other costs	(51,388)	-	(51,388)	(49,783)
	-	-	-	-

Governance costs have been split between Charitable Activities, raising Voluntary Income and Fundraising as required by SORP102 on a time spent basis.

11. Staff costs

	2021	2020
	£	£
Staff costs were as follows:		
Wages & salaries	122,923	114,649
Social Security	4,481	4,875
Pensions	6,994	6,346
	134,398	125,870
The average number of employees by function was		
Environmental Activities	5	5
Management & Administration	2	2
	7	7

No employee received emoluments of more than £60,000.

12. Tangible fixed assets

	Heritage Asset - Freehold Land & Buildings	Equipment	Total
	£	£	£
Cost/Valuation			
At 1 July 2020	285,000	7,039	292,039
Additions	-	6,929	6,929
At 30 June 2021	285,000	13,968	298,968
Depreciation			
At 1 July 2020	-	4,860	4,860
Charge for the period	-	3,166	3,166
At 30 June 2021	-	8,026	8,026
Net book value			
At 30 June 2021	285,000	5,942	290,942
At 30 June 2020	285,000	2,179	287,179

If Ty Hyll had not been revalued it would have been included at the following historical cost:

	2021	2020
	£	£
Cost	52,336	52,336

Ty Hyll was valued on an open market basis on 18 July 2008 by Iwan M Williams MRICS;FNAEA.

13. Investments

	2021	2020
Listed Investments	£	£
At 1 July 2020	443,038	456,438
Additions at cost	23,463	98,498
Disposals at valuation	(31,803)	(103,671)
	434,698	451,265
Revaluation surplus/(deficit) in year	77,207	(8,227)
At 30 June 2021	511,905	443,038
Cost at balance sheet date	414,769	422,552

The Society is not subject to restrictions on wider-range investments.
Investments worth more than 5% of the total portfolio value are as follows

	No of shares	Value
		£
JP Morgan AM UK Limited	6,900	26,986
T Bailey Fund Mgrs Evenlode Income C Inc	13,160	31,615
Threadneedle Investments UK Equity Income	19,480	28,955
Capita Financial Managers Trojan Income	14,160	26,540
Findlay Park Plc American Fund Unhgd	375	34,035

The cash at bank and in hand includes £41,660 held by the investment managers for future investment.

14. Current Liabilities - Creditors and accruals

	2021	2020
	£	£
Trade creditors	67	-
Other creditors	22,268	-
Accruals & deferred income	3,271	3,596
	25,606	3,596

During the year the Society received 2 loans from Welsh Council for Voluntary Action. They received £16,250 in October 2020 which was repaid in June 2021. A further £21,185 was received in March 2021 which is included in other creditors.

15. Reconciliation of movement in Society's Funds

2021 Movement	Unrestricted	Restricted	2021 Total
	£	£	£
Net incoming/(outgoing) resources for the year	18,850	44,593	63,443
Realised gains/(losses) on investments	4,993	-	4,993
Unrealised gains/(losses) on investments	77,207	-	77,207
Net addition/(reduction) to Society's funds in year	101,050	44,593	145,643
Transfers between funds	500	(500)	-
	101,550	44,093	145,643
Balance brought forward	452,784	355,005	807,789
Balance carried forward	554,334	399,098	953,432

2020 Movement	Unrestricted	Restricted	2020 Total
	£	£	£
Net incoming/(outgoing) resources for the year	(38,509)	12,158	(26,351)
Realised gains/(losses) on investments	(754)	-	(754)
Unrealised gains/(losses) on investments	(8,227)	-	(8,227)
Net addition/(reduction) to Society's funds in year	(47,490)	12,158	(35,332)
Transfers between funds	5,000	(5,000)	-
	(42,490)	7,158	(35,332)
Balance brought forward	495,274	347,847	843,121
Balance carried forward	452,784	355,005	807,789

16. Transfers between funds

	Unrestricted	Restricted	2021
	£	£	£
MAD Weekend	500	(500)	-
	500	(500)	-

£500 was transferred from the restricted fund for the MAD weekend for administrative costs associated with it in the year.

17. Related Party Transactions

The Trustees and persons connected with them have received no remuneration or any other benefits from the Society.

During the year one trustee received reimbursement of expenses for travel in their role as trustee, this amounted to £71.

18. Contractual Commitments

Dependent upon employees' choice, the Society will contribute to individual pension plans. The Society's annual commitment would amount to 6% of the gross salary of the participating employees.